Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin a Ti a Fi Llan-y-pwll

**Ysgol Llan-y-Pwll**
**Ffordd Parc Borras**
**Wrecsam**

**LL12 7TH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin a Ti a Fi Llan-y-pwll

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin a Ti a Fi Llan-y- Pwll |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Carrie Harper |
| Person â gofal | Ffion Jones |
| Nifer y lleoedd | 27 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 17 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9:00yb -3:15yp- Dydd Llun i Ddydd Iau11:40yb-3:15 yp- Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi, ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu a allai ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 18/06/2024 |
| Mae bron bob plentyn yn dod o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg neu lle Cymraeg yw ail iaith y cartref. Mae holl staff y lleoliad yn newydd i'w swydd ers mis Ionawr 2024. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar Cymraeg y plant er mwyn magu eu hyder i ddechrau defnyddio'r Gymraeg gydag ymarferwyr a chyfoedion

A2 Gwella dealltwriaeth a medrau mathemategol y plant

A3 Cryfhau’r defnydd o arsylwadau ac asesiadau i gynllunio’r camau nesaf yn nysgu a datblygiad bob plentyn yn effeithiol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu gyda'i gilydd. Maent yn gwneud dewisiadau'n hyderus ac yn mwynhau'r rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth ddewis os ydynt am chwarae dan do neu yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae'r plant yn helpu eu hunain i'r holl adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys dewis arbrofi â thoes, peintio wal â brwshys mawr a reidio beiciau a sgwteri. Maent yn hyderus a chyfforddus wrth ofyn am gymorth, megis cefnogaeth i wisgo siwt law neu lenwi jwg o'r gasgen ddŵr.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym wrth gyrraedd, gan fynd ati i chwarae'n hapus a llawn egni a chyffro. Maent yn ymdopi'n dda ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol, er enghraifft, maent yn mwynhau agosatrwydd ymarferwyr a ffrindiau wrth wrando ar stori yn y ti-pi clyd. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion y dydd ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau, gan gynnwys creu cinio yn yr ardal chwarae rôl. Maent yn cael boddhad wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, eu cymuned, a'u ffrindiau. Er enghraifft, yn ystod byrbryd, mae'r plant yn sgwrsio'n hapus am eu profiadau gyda'u teuluoedd.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Maent yn mwynhau cwmni ffrindiau ac yn dysgu i gydweithio a chymryd tro. Er enghraifft, mae'r plant yn arsylwi a chefnogi'i gilydd wrth ddysgu sut i ddefnyddio cyllyll a rhannu sylwadau wrth dorri llysiau a ffrwythau. Mae bron bob un o'r plant yn barod i gefnogi ei gilydd. Er enghraifft, yn yr awyr agored, mae'r plant yn weithgar wrth lenwi casgen â dŵr a lemonau nes iddo orlifo ac yn cael boddhad wrth ailadrodd y broses. Maent yn datblygu perthnasoedd cynnes â'r ymarferwyr ac yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr, megis wrth ddangos eu gwaith crefft neu wrth baratoi bwyd iddynt yng nghegin yr ardal chwarae rôl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau'n fwriadus wrth ddysgu, er enghraifft wrth arbrofi gyda dŵr a darganfod eu gallu i greu pyllau mwdlyd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hyderus i arbrofi yn eu hamgylchedd ac yn mwynhau meistroli cyfarpar fel ffynnon ddŵr wrth ddatrys sut i gario sosbenni trwm o un ardal i'r llall. Maent yn canolbwyntio'n ofalus am gyfnodau wrth arbrofi'n greadigol gydag adnoddau celf i beintio, gludo ac addurno. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd wrth gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae, er enghraifft trwy fwynhau dod o hyd i lindys a phili-pala yn ystod helfa yn yr ysgol goedwig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt fynd i'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo heb gymorth yn ogystal â hongian eu cotiau. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau wrth gwblhau tasgau fel arllwys diodydd eu hunain, defnyddio teclyn i lenwi eu platiau â bwyd, a thaflu unrhyw wastraff bwyd i'r bin sbwriel cywir.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron bob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n llwyddiannus. Maent yn ymuno'n frwdfrydig â chaneuon a rhigymau ac mae ychydig iawn o blant yn dechrau defnyddio ambell gân maent wedi ei dysgu yn eu chwarae. Gan ystyried bod y rhan fwyaf o blant yn newydd i'r Gymraeg, mae tua hanner yn datblygu medrau cyfathrebu cadarn yn iaith y cartref. Wrth iddynt ddatblygu hyder, mae'r rhan fwyaf o blant yn deall ac yn ymateb i ystod o eirfa ac ymadroddion Cymraeg syml. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae defnydd y plant o'r Gymraeg yn gyfyngedig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos cariad at lyfrau ac yn troi tudalennau yn barchus gan ymgolli wrth wrando ar storïau gan ymarferwyr. Mae'r mwyafrif yn datblygu medrau marcio cynnar yn effeithiol, er enghraifft trwy ddefnyddio dŵr lliw mewn poteli i chwistrellu marciau ar y wal ac wrth ddefnyddio brigau ar lawr y gegin fwd.

Mae medrau rhifedd lleiafrif y plant yn datblygu'n briodol. Maent yn cyfrif ar lafar hyd at ddeg yn eu hiaith gyntaf. Gyda chymorth, mae'r ychydig yn medru cyfrif hyd at bump yn Gymraeg. Yn gyffredinol, mae ychydig o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn briodol, er enghraifft wrth dorri ffrwythau i'w gosod yn y bowlen ar gyfer cinio tedi neu wrth drafod maint y 'wrap' amser snac. Er hyn, nid yw'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau mathemategol yn ddigon cadarn.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau modur mân da, er enghraifft wrth agor a chau top potel wag o baent ewinedd yn yr ardal chwarae rôl. Maent yn arddangos medrau cyd-symudiad llaw a llygaid effeithiol wrth dorri llysiau yn y gegin fwd i wneud cawl. Mae medrau modur mawr bron bob plentyn yn ardderchog. Maent yn symud ar hyd cwrs rhwystrau sy'n cynnwys planciau ar ben teiars a glanio ar fwrdd cydbwyso yn hyderus. Mae bron bob un yn gyfforddus â chymryd risg wrth wibio ar y sgwter, gan asesu eu gallu eu hunain. Yn ogystal, maent yn herio eu hunain wrth ddringo'r ffrâm uchel a siglo o un ochr y bont i'r llall gan ddal y bariau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau creadigol dychmygus effeithiol yn dilyn wythnos iechyd meddwl plant. Er enghraifft, maent yn efelychu gosod paent ar ewinedd eu ffrindiau a thrin eu gwallt cyn mynd i 'nôl sliperi iddynt wisgo ac ymlacio. Mae llawer o blant yn hyderus wrth ddefnyddio offer creadigol i argraffu pili-pala â sbwng a dewis o ystod o ddeunyddiau i greu llygaid a theimlyddion.

Mae tua hanner y plant yn medru cydweithio'n effeithiol â'i gilydd wrth ddatrys problemau, er enghraifft wrth gasglu a chludo dŵr o gafn i greu pwll ar ddarn o borfa. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnod hir iawn wrth archwilio ardal o ddiddordeb iddynt, er enghraifft wrth gydbwyso boncyffion cul yn yr ardal darnau rhydd allanol er mwyn creu tyrrau uchel i'w tŷ. Mae medrau digidol llawer o blant yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod o offer digidol yn hyderus, er enghraifft wrth wneud galwadau ffôn neu defnyddio'r til yn yr ardal siop.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae’r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn blaenoriaethu eu hiechyd a’u diogelwch yn llwyddiannus. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau cadarn yn effeithiol. Mae’r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant a chymorth cyntaf priodol ac yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn yn cael eu dilyn cyn cyfnodau byrbryd a chinio gan atgoffa plant i olchi eu dwylo. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac mae ganddynt weithdrefnau clir i weinyddu meddyginiaeth. Maent yn sicrhau urddas a phreifatrwydd llwyr wrth newid clytiau ac maent yn cadw cofnodion cywir. Mae gan yr ymarferwyr system gofrestru drwyadl a threfnus ac mae ganddynt gofnodion caniatâd ar waith. Maent yn sicrhau gweithdrefnau effeithiol yn ystod cyfnodau heulog, megis rhoi eli haul, ac yn sicrhau bod plant yn ddiogel. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan ymarferwyr berthynas annwyl â’r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig ac yn modelu rhyngweithiadau parchus a chynnes wrth ddysgu plant i rannu a chymryd tro. Maent yn cymryd eu hamser i wrando ac egluro mewn modd gofalgar a thyner sy’n creu ymdeimlad o berthyn. Mae’r ymarferwyr yn canmol y plant yn gyson ac yn eu cefnogi i ddyfalbarhau â’u gweithgareddau, er enghraifft wrth gefnogi plant i feistroli medrau fel torri ffrwythau a rholio toes. Mae’r ymarferwyr yn sgwrsio’n gyson â’r plant sy’n cynnig sicrwydd ac awyrgylch hapus. Maent yn eistedd gyda phlant yn ystod cyfnodau byrbryd, cinio, a gweithgareddau fel amseroedd stori ddigymell, er mwyn eu cefnogi i feddwl ac ymestyn eu dealltwriaeth a’u medrau.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o’u hanghenion a’u diddordebau unigol. Maent wrth law i gynnig cefnogaeth pan mae plant yn gofyn amdani, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio tap y gasgen ddŵr, newid dillad neu ymarfer symudiadau ioga yn yr awyr agored. Mae’r ymarferwyr yn darparu’n dda ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy fanteisio ar rwydweithiau effeithiol a gweithredu gweithdrefnau pwrpasol. Maent yn annog plant i feddwl ac i fod yn hyderus wrth ddysgu a datrys problemau, gan gynnwys cwblhau jig-so a llenwi a gwagio cynwysyddion. Maent hefyd yn cynnig ystod dda o brofiadau go iawn i blant i sbarduno eu diddordeb, er enghraifft trwy orchuddio’u llygaid gyda darnau o giwcymbr wrth ddysgu am brofiadau mewn ‘spa.’ Mae’r ymarferwyr yn sicrhau profiadau amrywiol sy’n cymell y plant i ddysgu trwy wneud. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd i blant weld cylch bywyd yn esblygu wrth arsylwi ar y broses o weld lindys yn tyfu a newid.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd dysgu trwy chwarae. Maent yn dilyn diddordebau plant wrth gynllunio ystod dda o brofiadau

dysgu. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu trwy brofiadau bywyd go iawn a'r defnydd o adnoddau o ansawdd uchel ar draws yr amgylchedd. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal allanol a'r adnoddau i ddatblygu medrau corfforol, creadigol, datrys problemau a chymdeithasol y plant. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd da i blant ddefnyddio rhedfa ddŵr i ddatrys problem o symud y dŵr o un uchder i'r llall yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn cymell plant yn dda. Maent yn cynllunio cwricwlwm diddorol sy'n ysbrydoli plant i fod yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Mae'r ardaloedd dysgu y tu mewn a thu allan yn cydgysylltu'n ddi-dor, gan roi rhyddid i blant archwilio'r amgylchedd dysgu o'u dewis trwy gydol y dydd.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith da. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau cyfathrebu. Maent yn ymateb yn arbennig o dda i ddiddordeb plant mewn llyfrau a storïau gan ddarllen stori gyfarwydd iddynt yn rheolaidd. Fodd bynnag, cyfyng yw defnydd y plant o'r Gymraeg wrth ymateb i'r ymarferwyr. Maent yn helpu plant i ddatblygu ymwybyddiaeth briodol o ddiwylliant Cymru a pherthyn trwy ddigwyddiad dathlu fel Dydd Gŵyl Dewi. Er bod cyfoeth o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y ddarpariaeth, cyfyng yw'r cynnydd yn eu medrau rhifedd.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig ystod eang o brofiadau llwyddiannus i gynorthwyo plant i ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol. Maent yn cyflwyno plant i fyd digidol yn llwyddiannus trwy ddarparu adnoddau fel darganfyddwyr metel, chwaraewr CD, ffôn symudol a chyfle i greu marciau ar fwrdd gwyn rhyngweithiol. Maent yn cynnig cyfleoedd iddynt ddatblygu medrau moesol, diwylliannol ac ysbrydol yn effeithiol. Maent yn annog plant i ddysgu am ddiwylliannau gwahanol drwy ddefnyddio ystod o adnoddau gwerthfawr sy'n ennyn diddordeb y plant mewn bywydau pobl eraill, er enghraifft, wrth archwilio gwahanol offerynnau a gwisgoedd amrywiol o wahanol wledydd. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd eang i blant ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac mae amser snac yn caniatáu plant i sgwrsio â'i gilydd am brofiadau tu allan i'r lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ymweld â'r gymuned leol. Maent yn trefnu teithiau i'r archfarchnad a chaffi lleol, yn ogystal â cherdded o gwmpas y parc, sy'n darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu ymdeimlad o berthyn i'w cynefin ac i ddysgu am y byd o'u cwmpas.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Maent yn cofnodi arsylwadau addas o ddiddordeb a dysgu'r plant yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn eu defnyddio'n briodol i gynllunio cydbwysedd da o brofiadau dysgu a chwarae sy'n cael eu harwain gan yr ymarferwyr a phlant. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio'r wybodaeth o'u harsylwadau ac asesiadau'n ddigon manwl i gynllunio camau nesaf yn natblygiad plant unigol. Mae'r asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau ar ffurf naratif sy'n rhoi naws hyfryd a gwell dealltwriaeth i bawb o safonau plant. Maent yn rhannu'r rhain gyda rhieni ac yn trafod ffyrdd y gall rieni helpu eu plant i ddatblygu.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a glân. Maent yn sicrhau bod drysau a giatiau i ardaloedd allanol y lleoliad dan glo ac yn cael eu rheoli'n ofalus gan yr ymarferwyr. Mae ymwelwyr yn mewngofnodi'n brydlon ac mae'r ymarferwyr yn cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn ddiogel ar y safle. Mae cofnodion cynnal a chadw'r adeilad yn gyfredol ac mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad ac offer diogelu'r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu yn rheolaidd, gan gynnwys yr offer tân a chymorth cyntaf. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol a phwrpasol. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n effeithiol a'u defnyddio mewn modd llwyddiannus. Mae arweinwyr yn cadw cofrestr presenoldeb plant ac ymarferwyr, ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. Mae ganddynt fwrdd gwybodaeth sy'n arddangos tystiolaeth glir am ymarferwyr, cyfrifoldebau, polisïau a gweithdrefnau diogelu.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd o ansawdd da sy'n groesawgar a chynnes. Maent yn sicrhau diogelwch, preifatrwydd a lle ar gyfer nifer y plant sy'n mynychu'n ddyddiol. Mae arweinwyr yn darparu toiledau addas a chyfleusterau newid clytiau pwrpasol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r lleoliad a chyfleusterau'r safle, megis cyntedd ar gyfer cotiau a bagiau'r plant, cegin ar gyfer paratoi byrbrydau'n ddiogel a drysau dwbl i'r ardal allanol sydd yn caniatáu chwarae di-dor a diogel i blant. Yn y brif ystafell, mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd eang lle mae celfi bach ac unedau'n llawn adnoddau sy'n hybu annibyniaeth y plant yn effeithiol. Maent hefyd yn sicrhau amgylchedd tu allan sy'n cynnig profiadau cyffrous. Er enghraifft, mae'r iard yn cynnig heriau a chyfleoedd i blant gymryd risg, gardd sy'n cynnig profiadau plannu a darganfod, ynghyd ag ardal rhisgl lle mae gan blant fynediad i offer adeiladu. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu chwilfrydedd tu fewn ac yn yr awyr agored, er enghraifft trwy gynnig cyfleoedd cyfoethog i blant fwynhau cegin fwd a defnyddio offer go iawn fel sosbenni a bwcedi. Maent yn sicrhau cydbwysedd da rhwng hyrwyddo diogelwch i blant a'u cefnogi i fentro. Er enghraifft, mae plant yn cael cyfle i brofi byd natur yn yr ysgol goedwig gerllaw.

Mae arweinwyr yn cynnig adnoddau amrywiol a chyffrous i blant ar gyfer eu cam datblygiad a'u hoed. Maent yn gosod cyfarpar allan ar lefelau isel er mwyn i blant ddewis a dilyn eu diddordebau. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan blant gyfleoedd di-ri i archwilio adnoddau dilys a go iawn, er enghraifft, cist enfawr yn llawn tywod i blant archwilio rhannau rhydd, rhidyllau a chnau coco. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn dda trwy gynnig profiadau ac adnoddau iddynt ddysgu am eu cymuned, am amrywiaeth, ac am y byd aml-ddiwylliannol. Er enghraifft, mae ganddynt ystod o ddoliau, llyfrau a glôb, yn ogystal ag arddangosfeydd teuluol a chyfleoedd i ymweld â'r ardal leol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r arweinydd wedi creu awyrgylch ac ethos gofalgar, cynnes a chefnogol yn y lleoliad mewn cyfnod byr iawn. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar sicrhau darpariaeth o'r safon uchaf. Mae hi'n cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben

cyfredol sy’n adlewyrchu’r gwasanaeth yn llwyddiannus. Mae’r disgwyliadau uchel sydd gan yr arweinydd ohono’i hun a’r ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn cydweithio’n effeithiol iawn fel tîm.

Mae’r arweinydd yn gwerthuso gwaith y lleoliad yn dda ac yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn effeithiol. Mae’r trefniadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Mae’r arweinydd yn blaenoriaethu cyllid yn briodol i fynd i’r afael ag unrhyw feysydd sydd angen eu gwella. Enghraifft nodedig o hyn yw’r modd y maent wedi defnyddio grantiau’n llwyddiannus i gyflwyno darnau rhydd i wahanol ardaloedd yn yr awyr agored ac o dan do. O ganlyniad, mae medrau creadigol ac annibynnol y plant wedi gwella. Mae’r arweinydd yn casglu barn rhieni a gofalwyr yn fwriadus ac yn gweithredu’n syth ar unrhyw syniadau neu faes datblygu. Er enghraifft, yn dilyn canlyniadau holiadur diweddar, mae’r arweinydd wedi cyflwyno platfform digidol i rannu gwybodaeth am brofiadau’r plant, lle gall rieni ymateb drwy osod sylwadau. Rhennir mwy o wybodaeth gyffredinol â chynulleidfa ehangach ar eu tudalen ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae’r arweinydd yn meithrin synnwyr cadarn o ymrwymiad a chydweithio o fewn y tîm ac maent yn gwerthfawrogi’r cyfle maent yn eu cael i gyfrannu at waith y lleoliad. Mae’r tîm yn cael cyfleoedd datblygiad proffesiynol rheolaidd sy’n cael effaith lwyddiannus ar ddatblygiad y plant a’r ddarpariaeth a gynigir. Er enghraifft, o ganlyniad i sesiwn proffesiynol ar asesu ac arsylwi ar blant, mae’r lleoliad wedi sefydlu trefniadau cynllunio ymatebol sy’n ystyried diddordebau’r plant yn llwyddiannus. Mae’r holl arweinwyr yn cydweithio’n effeithiol â’i gilydd er mwyn sicrhau bod amrediad o weithdrefnau a pholisïau ar gael i gefnogi gwaith y lleoliad.

Mae arweinwyr yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel ac mae ganddynt drefniadau llwyddiannus ar gyfer gwerthuso perfformiad ymarferwyr. Maent yn gwerthuso ac yn adnabod targedau priodol ar gyfer gwelliannau drwy arfarniadau effeithiol rheolaidd.

Mae gan yr arweinydd a’r ymarferwyr berthynas agos â rhieni a gofalwyr, sy’n teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad. Mae cydweithio buddiol rhwng y lleoliad a mudiadau gwahanol er mwyn cynllunio’n strategol ar gyfer y Gymraeg ac er mwyn ailgydio â chyfleoedd pwrpasol i ddatblygu hyder a safonau Cymraeg y plant. Mae hyn yn dechrau cael effaith addas ar y ddarpariaeth a deilliannau’r plant. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn cydweithio’n dda ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar y cyngor a roddir. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y lleoliad a’r plant. Mae gan arweinwyr berthynas agos a chefnogol â’r ysgol y mae’r ddarpariaeth wedi’i lleoli ynddi. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn symud ymlaen yn hapus i’r cam nesaf yn eu dysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg)**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  20/08/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/08/2024